



Ymgynghoriad yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar drefniadau pontio ar gyfer pryfed bwydadwy ym Mhrydain Fawr

Dyddiad lansio: 13 Gorffennaf 2022

Ymateb erbyn: 10 Awst 2022

I bwy y bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb yn bennaf?

Y diwydiant, awdurdodau gorfodi, defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill sydd â buddiant yn y polisi a'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â phryfed bwydadwy.

Pwnc yr ymgynghoriad

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn ceisio sylwadau rhanddeiliaid ar gyfnod pontio arfaethedig wedi'i ddeddfu o dan y rheoliadau bwydydd newydd ar gyfer pryfed bwydadwy yng Nghymru, Lloegr, a'r Alban. Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu gyda mewnbwn gan Safonau Bwyd yr Alban.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae angen awdurdodi pryfed bwydadwy a ystyrir yn fwydydd newydd o dan Gyfraith Bwyd yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn unol â Rheoliad (EU) 2015/2283, fel y'i cymhwysir o dan delerau cyfredol Protocol yr Iwerddon/Gogledd Iwerddon, cyn eu rhoi ar y farchnad yng Ngogledd Iwerddon. Proses awdurdodi'r Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys dilysu, sy'n gymwys yng Ngogledd Iwerddon.

Diben yr ymgynghoriad

Ceisio sylwadau ar y cynnig gan y diwydiant, awdurdodau gorfodi, a rhanddeiliaid eraill sydd â buddiant.

Sut i ymateb

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i:

E-bost: Novelfoods@food.gov.uk

Manylion yr ymgynghoriad

Cyflwyniad

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wedi adolygu'r dull polisi ar gyfer awdurdodi rhai pryfed bwydadwy ym Mhrydain Fawr o fewn cwmpas y mesurau pontio cyfredol yn y rheoliadau bwydydd newydd a ddargedwir o'r UE (gweler yn benodol Erthygl 35(2) o [Reoliad a Ddargedwir \(EU\) 2015/2283](#)).

Mae'r ASB yn croesawu eich sylwadau ar y cynnig polisi isod i gyflwyno mesur pontio wedi'i ddeddfu sy'n benodol i Brydain Fawr, a fydd yn egluro'r trefniadau ar gyfer busnesau sy'n ceisio awdurdodiad bwyd newydd ar gyfer eu cynnyrch pryfed bwydadwy.

Cefndir

Bwydydd newydd

Mae bwydydd newydd yn fwydydd nad ydynt wedi cael eu bwyta'n helaeth gan bobl yn y Deyrnas Unedig (DU) na'r UE cyn Mai 15 1997. Mae hyn yn golygu nad oes gan y bwydydd hyn 'hanes o gael eu bwyta'. Rhaid awdurdodi bwydydd newydd cyn y gellir eu rhoi ar y farchnad ym Mhrydain Fawr.

Statws Bwyd Newydd Pryfed Bwydadwy

Ystyrir bod pob pryfyn yn fwyd newydd oni bai ei fod yn un o nifer cyfyngedig iawn o rywogaethau a oedd yn cael eu bwyta'n gyffredin yn y DU neu'r UE cyn 15 Mai 1997.¹

Yn 2018, cyn i'r DU ymadael â'r UE, disodlodd yr UE ei ddeddfwriaeth bwydydd newydd â Rheoliad (EU) Rhif 2015/2283 ('2015/2283'). Fe wnaeth y diweddariad ddwyn pryfed bwydadwy yn eu cyfanrwydd i mewn i'r fframwaith am y tro cyntaf. Wedi hynny, byddai angen awdurdodi pob pryfyn a ystyrir yn fwyd newydd cyn ei roi ar farchnad y DU neu farchnad yr UE.

Er mwyn rhoi amser i'r diwydiant symud tuag at gydymffurfio, cynhwyswyd mesurau pontio yn Erthygl 35(2) o Reoliad 2015/2283. Roedd y rhain yn caniatáu i rai pryfed bwydadwy gael eu rhoi ar y farchnad nes bod y Comisiwn Ewropeaidd yn gwneud penderfyniad o ran awdurdodi, a bwrw bod y cynnyrch:

- wedi ei roi ar y farchnad yn gyfreithlon erbyn 1 Ionawr 2018,
- heb ddod o fewn cwmpas Rheoliad 258/97 yr UE (y fframwaith a ragflaenodd y rheoliadau bwydydd newydd dilynol),
- yn ddarostyngedig i'r gofyniad i gais fod wedi'i gyflwyno i'r UE erbyn 1 Ionawr 2019.

Ymadael â'r UE ac Erthygl 35(2)

Ar ôl Ymadael â'r UE, dargadwyd Rheoliad 2015/2283 ac mae bellach yn gymwys yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan gynnwys mesurau pontio Erthygl 35(2) sy'n gymwys i bryfed bwydadwy. Mae hyn yn golygu taw dim ond pryfed bwydadwy a awdurdodir gan yr ASB neu Safonau Bwyd yr Alban a fydd yn cael mynd ar y farchnad ym Mhrydain Fawr o 1 Ionawr 2021 ymlaen, oni bai eu bod wedi'u cynnwys yn y mesurau pontio.

¹ Hyd yma, dim ond dau bryfyn sydd wedi'u nodi fel rhai sy'n bodloni'r meini prawf hyn, sef dwy rywogaeth o widdonyn caws a ddefnyddir wrth wneud caws.

Er bod Erthygl 35(2) wedi'i dargadw yn neddfwriaeth bwydydd newydd y DU, cafodd ei throsglwyddo heb ei haddasu at y farchnad nac at y cyd-destun rheoleiddio ym Mhrydain Fawr. Mae'r cynnig polisi isod yn ceisio mynd i'r afael â hyn.

Y cynnig yw darparu cyfnod pontio wedi'i deddfu ym Mhrydain Fawr, y gall busnesau pryfed bwydadwy cymwys ei ddefnyddio ac a fydd yn hwyluso ceisiadau awdurdodi.

Mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban wedi annog y diwydiant pryfed bwydadwy i wneud cais am awdurdodiad trwy [System Cynhyrchion wedi'u Rheoleiddio'r DU](#). Mae un cais o'r fath wedi dod i law hyd yn hyn.

Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon, mae Cyfraith Bwyd yr UE mewn perthynas â bwydydd newydd yn parhau i fod yn gymwys o dan Brothocol Gogledd Iwerddon. Roedd Rheoliad 2015/2283 yn darparu mesurau pontio er mwyn i'r cynhyrchion hynny a roddwyd ar y farchnad yn gyfreithlon yng Ngogledd Iwerddon, gan gynnwys y rheiny awdurdodwyd eisoes, aros ar y farchnad. Gellir dod o hyd i bryfed bwydadwy sydd wedi'u hawdurdodi i'w rhoi ar y farchnad yng Ngogledd Iwerddon [fan hyn](#).

Mae'r mesurau pontio yn Erthygl 35(2) o Reoliad 2015/2283 yn parhau i fod yn gymwys i Ogledd Iwerddon yng nghyswllt y cynhyrchion hynny a roddwyd yn gyfreithlon ar farchnad yr UE. Caniateir rhoi'r cynhyrchion hyn ar y farchnad yng Ngogledd Iwerddon o hyd nes bod penderfyniad terfynol wedi'i wneud gan yr UE.

1. Er mwyn i rywogaethau pryfed eraill nad ydynt wedi'u cwmpasu gan Erthygl 35(2) gydymffurfio â'r Rheoliadau Bwydydd Newydd, rhaid i'r cynhyrchion hyn yn gyntaf gael eu hawdurdodi gan yr UE trwy [broses awdurdodi bwydydd newydd yr UE](#), cyn eu rhoi ar y farchnad yng Ngogledd Iwerddon.

Cynnig Polisi

Er mwyn addasu'r mesurau pontio yng nghyfraith yr UE a ddargedwir at gyd-destun Prydain Fawr, mae'r ASB, ynghyd â Safonau Bwyd yr Alban, wedi datblygu cynnig ar gyfer mesurau pontio wedi'u deddfu ar gyfer pryfed bwydadwy o fewn cwmpas Erthygl 35(2) o Reoliad 2015/2283, a bwrw bod y pryfed:

- wedi'u marchnata yn yr UE (gan unrhyw weithredwr busnes bwyd) cyn 1 Ionawr 2018;
- yn destun cais i'r UE (gan unrhyw weithredwr busnes bwyd) erbyn 1 Ionawr 2019; ac
- yn destun cais a wnaed i awdurdodau Prydain Fawr (gan unrhyw weithredwr busnes bwyd) cyn 31 Rhagfyr 2023.

Byddai'r pryfed bwydwy o fewn y cwmpas yn cael aros ar y farchnad ym Mhrydain Fawr nes bod Gweinidogion yn gwneud penderfyniad o ran awdurdodi, neu nes bod y broses awdurdodi'n dod i gasgliad mewn rhyw ffordd arall (er enghraifft, os caiff y cais ei dynnu'n ôl gan yr ymgeisydd). Bydd y ddeddfwriaeth yn ei gwneud hi'n glir bod rhaid i fusnesau bwyd sy'n cyflenwi pryfed bwydwy fynd trwy broses awdurdodi Prydain Fawr os ydynt i aros ar y farchnad.

Asesiad risg cyflym

Byddai'r cynnig yn caniatáu i bryfed bwydwy cymwys aros ar y farchnad ym Mhrydain Fawr, er nad yw cynhyrchion unigol wedi mynd trwy gam asesu diogelwch yr awdurdodiad eto. O ganlyniad, mae angen ystyried risgiau diogelwch posib sy'n deillio o'r cynnig.

Ym mis Mai 2022, fe wnaeth yr ASB baratoi asesiad risg cyflym i archwilio'r risg diogelwch bwyd i ddefnyddwyr o fwyta'r pryfed bwydwy o fewn cwmpas y cynnig.

Archwiliodd yr asesiad nifer o beryglon, gan gynnwys alergeneidd-dra a halogi gan ficrobau a metel trwm. Ar gyfer is-set fach o unigolion sy'n cael adweithiau alergaidd cryf i bysgod cregyn (yn enwedig cramenogion) a gwiddon, canfu fod gan difrifoldeb y salwch i potensial i fod yn 'uchel' (gallai achosi sioc anaffylactig). Byddai angen i ddefnyddwyr sydd ag adweithedd uchel i gramenogion leihau eu cysylltiad â phryfed, gyda chefnogaeth labelu priodol. Hefyd, oherwydd data anghyflawn, 'canolig' yw lefel yr ansicrwydd ar gyfer sensiteiddio o'r newydd i brotein pryfed bwydwy.

Ar draws y chwe chategori arall a archwiliwyd, canfu'r asesiad amcangyfrifon risg a oedd naill ai'n 'isel' neu'n 'isel iawn', a bwrw bod arferion priodol ar waith ar gyfer yr holl bryfed bwydwy sy'n mynd i mewn i'r gadwyn fwyd, gan gynnwys:

- Arferion magu priodol;
 - Bwyd anifeiliaid sy'n deillio o bryfed yn cadw at derfynau hylendid, a heb ei halogi â micro-organebau neu fetelau trwm;
 - Rhyw fath o driniaeth wres cyn i'r cynnyrch gael ei fwyta; a
 - Labelu'n nodi'n glir y pryderon o ran croes-adweithedd ac alergeneidd-dra.
2. Pwysig: Nid rhestr gynhwysfawr yw hon, ac mae'n deillio o asesiad risg cyflym o'r mater.

Ystyried yr Effeithiau

Effeithiau ar Ogledd Iwerddon

3. O ganlyniad i weithredu parhaus cyfraith bwyd yr UE yng Ngogledd Iwerddon, mae yna bosibilrwydd o wahaniaethau rheoleiddio mwy neu lai o ran cymeradwyo pryfed bwytadwy o dan y cynnig polisi, o gymharu â sefyllfa lle na wneir dim.
4. Bydd graddau'r gwahaniaethau (neu lai o wahaniaethau) yn dibynnu ar y penderfyniadau awdurdodi a wneir gan yr UE mewn perthynas â cheisiadau pryfed bwytadwy yn ystod y cyfnod pontio wedi'i deddfu ym Mhrydain Fawr, yn ogystal â chyfradd y penderfyniadau hynny.
5. Yn gyffredinol, oherwydd maintioli bach y diwydiant pryfed bwytadwy, ac oherwydd y bydd angen i bryfed bwytadwy unigol gael eu hawdurdodi yn y pen draw gan yr ASB neu Safonau Bwyd yr Alban (yn annibynnol ar y penderfyniadau a wneir gan yr UE) i aros ar y farchnad ym Mhrydain Fawr yn y sefyllfa sydd ohoni neu o dan gynnig yr ASB, mae'r risg gyffredinol o wahaniaethau rheoleiddio trwy'r cynnig yn isel.

Effeithiau Eraill

Buddion

Bydd y cynnig yn diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir i sicrhau ei bod yn adlewyrchu cyd-destun rheoleiddio Prydain Fawr ac amgylchiadau'r farchnad.

O gymharu â'r sefyllfa bolisi gyfredol, bydd y meini prawf arfaethedig ar gyfer cyfnod pontio wedi'i deddfu ym Mhrydain Fawr yn rhoi amserlen glir a mwy o sicrwydd ynghylch y llwybr ar gyfer awdurdodi parhaus ym Mhrydain Fawr.

Mae'r cynnig hwn hefyd yn rhoi eglurder i awdurdodau lleol a busnesau o ran pa bryfed bwytadwy a fydd yn cael eu cynnwys yn y trefniadau pontio, gan bennu terfyn amser clir i ymgeiswyr gyflwyno eu ceisiadau am awdurdodiad. Gan y bydd y ddeddfwriaeth ddiwygio yn gymwys i Brydain Fawr yn ei chyfanrwydd, bydd yn helpu i gefnogi dull polisi cyson ar draws Prydain Fawr.

Am resymau tebyg, bydd y cynnig o fudd i ddefnyddwyr ym Mhrydain Fawr trwy gefnogi'r diwydiant pryfed bwytadwy i symud tuag at sefyllfa lle bo awdurdodiadau ar gyfer eu cynhyrchion, gan alluogi marchnad sy'n cydymffurfio'n fwy cyffredinol.

Costau

Nid yw'r ASB wedi nodi unrhyw effaith sylweddol gan y cynnig, ac eithrio mewn perthynas â chost ymgyfarwyddo untro ddibwys unwaith y bydd y newidiadau deddfwriaethol wedi'u gwneud, a amlinellir isod.

Bydd yna gostau ymgyfarwyddo untro a fydd yn cael eu hysgwyddo gan y diwydiant ac awdurdodau lleol o ganlyniad i'r cynnig polisi.

Mae'r ASB yn amcangyfrif cyfanswm cost ymgyfarwyddo untro o £10,700 i fusnesau ac awdurdodau lleol ym Mhrydain Fawr.

- a. Mae rhywfaint o ansicrwydd o ran nifer y busnesau sydd ynghlwm wrth y farchnad pryfed bwydadwy. Gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael am y farchnad, amcangyfrifir bod o leiaf 30 o gwmnïau ym Mhrydain Fawr yn cynhyrchu cynhyrchion pryfed bwydadwy, ac a allai gael eu heffeithio. ^[1]
- b. Rydym yn amcangyfrif y bydd yn cymryd awr i un rheolwr fesul busnes bwyd pryfed bwydadwy ddod i ddeall y newidiadau deddfwriaethol a lledaenu'r wybodaeth i staff allweddol yn eu cwmnïau.
- c. Gan gymhwyso ffigurau cyflog canolig fesul awr 2021 ar gyfer rheolwyr ac ystyried y gorbenion, cyfrifir cyfanswm cost o £840 i fusnesau^[2], sy'n cyfateb i Gost Uniongyrchol Net Flynyddol Gyfwerth i Fusnes sy'n ddibwys (EANDCB).

Defnyddir yr un fethodoleg a amlinellir uchod i gyfrifo costau ymgyfarwyddo i awdurdodau lleol. Gan ddefnyddio'r Adroddiad Blynyddol ar Orfodi Cyfraith Bwyd gan Awdurdodau Lleol, tybiwn y bydd tua 380 o bobl ar draws 206 o awdurdodau lleol ym Mhrydain Fawr yn ymgyfarwyddo â'r newidiadau deddfwriaethol a bod hyn yn cymryd awr ar draws pob un o'r tri rheoliad sy'n cael eu trosi.

Mae'r ASB yn amcangyfrif cost ymgyfarwyddo untro o £9800 i awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am safonau bwyd ym Mhrydain Fawr.

Y Broses Ymgysylltu ac Ymgynghori

Mae ymgynghoriad cyhoeddus pedair wythnos yn cael ei lansio ar draws y DU i roi cyfle i bartion sydd â buddiant wneud sylwadau ar y cynigion polisi ar gyfer rheoleiddio pryfed bwydadwy ym Mhrydain Fawr yn y dyfodol.

Mae'r cyfnod ymgynghori hwn yn gymharol fyr o gymharu â'r hyd optimaidd o ddeuddeg wythnos. Mae'r ymgynghoriad hwn yn fyrrach am fod angen i'r ASB gwblhau'r broses

^[1] <https://www.foodnavigator.com/Article/2022/02/03/a-major-milestone-for-the-uk-edible-insect-sector-uk-edible-insect-makers-hope-for-newydd-cymeradwyaeth-bwyd-erbyn-2023>

gan ganiatáu digon o amser ar gyfer defnyddio pwerau Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ('EUWA'), a fydd yn dod i ben ddiwedd 2022. Byddai'r pwerau hyn yn cael eu defnyddio i roi'r ddeddfwriaeth ar waith pe bai'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn gefnogol.

Bydd unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hystyried yn ofalus, a bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr ASB o fewn tri mis i'r ymgynghoriad ddod i ben.

Y cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad hwn:

1. Pa effeithiau, yn eich tyb chi, a fyddai'n deillio o'r cynnig polisi a amlinellir?

Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

2. Mae'r cynnig polisi a amlinellir yn nodi 31 Rhagfyr 2023 yn ddyddiad cau i weithredwyr busnesau bwyd gyflwyno eu cais i'r ASB neu Safonau Bwyd yr Alban.

Mae'r dyddiad cau hwn wedi'i nodi fel dyddiad sy'n ystyried yr angen i roi digon o amser i weithredwyr busnesau bwyd baratoi cais, a buddiant y cyhoedd wrth i fwydydd newydd fynd trwy'r broses awdurdodi berthnasol mor fuan â phosib.

A ydych yn teimlo bod y dyddiad cau hwn yn briodol, o ystyried y cydbwysedd rhwng yr ystyriaethau hyn? Os nad ydych, cynigiwch yr amserlen sy'n dderbyniol i chi, ynghyd â chyfiawnhad.

3. Ar gyfer busnesau sy'n cynhyrchu protein pryfed, a fydd y cynnig polisi'n effeithio ar eich cynlluniau (er enghraifft, ehangu'r busnes, neu newid y mathau o gynhyrchion a gynhyrchir)?

Darparwch enw a lleoliad eich busnes yn eich ymateb, gan nodi y bydd y data a ddaw i law yn cael ei drin yn unol â'r polisi preifatrwydd.

4. Cynhwyswch unrhyw ffactorau eraill y credwch y dylai'r ASB neu Safonau Bwyd yr Alban eu hystyried mewn perthynas â rheoleiddio pryfed bwydwyd ym Mhrydain Fawr, neu unrhyw adborth arall.

Dogfennau perthnasol eraill

[Rheoliad \(EU\) 2015/2283 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ar 25 Tachwedd 2015 ar fwydydd newydd, sy'n diwygio Rheoliad \(EU\) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ac yn diddymu Rheoliad \(EC\) Rhif 258/97 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd a Rheoliad y Comisiwn \(EC\) Rhif 1852/2001 \(Testun sy'n berthnasol i EEA\) \(\[legislation.gov.uk\]\(http://legislation.gov.uk\)\)](#)

Ymatebion

Rhaid i ymatebion ddod i law erbyn diwedd y dydd ar 10 Awst 2022. Yn eich ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae eich sefydliad yn eu cynrychioli).

Os ydych yn ymateb i'r cynnig polisi o ran pryfed bwytaf, anfonwch eich ymateb i: Novelfoods@food.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth am sut bydd yr ASB yn trin eich data personol, cyfeiriwch at yr hysbysiad preifatrwydd [yma](#).

Rhagor o wybodaeth

Os ydych chi angen y ddogfen hon mewn fformat sy'n haws i'w ddarllen, anfonwch fanylion at y cyswllt a enwir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, a bydd eich cais yn cael ei ystyried. Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag [egwyddorion ymgynghori Llywodraeth Ei Mawrhydi](#).

Ar ran yr Asiantaeth Safonau Bwyd, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

Yn gywir,

Enw:

Cangen

[Is-adran]

Atodiad A: Gwybodaeth Safonol am yr Ymgynghoriad

Datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych

Gallai'r wybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn gael ei chyhoeddi neu ei datgelu i bartïon eraill yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth (yn bennaf Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os dymunwch i'r wybodaeth yr ydych yn ei rhoi gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol bod yna God Ymarfer statudol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae'n ymdrin, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd.

O ystyried hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam rydych yn ystyried bod yr wybodaeth a roddwyd gennych yn gyfrinachol. Os bydd cais i ddatgelu'r wybodaeth yn dod i law, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd mewn bob amgylchiad.

Ni fydd unrhyw ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ar ei ben ei hun, yn cael ei ystyried fel un sy'n rhwymo.

Yr ASB fydd 'Rheolydd' y data personol a ddarperir i ni.

Pam rydym yn casglu eich data personol?

Mae eich data personol yn cael ei gasglu fel rhan hanfodol o'r broses ymgynghori, fel y gallwn gysylltu â chi ynglŷn â'ch ymateb ac at ddibenion ystadegol. Gallem hefyd ei ddefnyddio i gysylltu â chi ynglŷn â materion cysylltiedig.

Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn datgan y gall yr ASB, fel adran o'r llywodraeth, brosesu data personol fel y bo angen er mwyn cyflawni'n effeithiol dasg er budd y cyhoedd, hynny yw, ymgynghoriad.

Beth byddwn ni'n ei wneud â'r wybodaeth?

Mae'r holl ddata personol rydym ni'n ei brosesu yn cael ei gadw ar weinyddion o fewn yr UE. Mae ein gwasanaethau cwmwl wedi'u caffael trwy Gytundebau Fframwaith y

Llywodraeth a'u hasesu yn erbyn egwyddorion cwmwl y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

Nid oes gan drydydd partïon fynediad at eich data personol oni bai bod y gyfraith yn caniatáu iddynt wneud hynny. Bydd yr ASB weithiau'n rhannu data gydag adrannau eraill y llywodraeth, cyrff cyhoeddus a sefydliadau sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau statudol, neu pan fydd hynny er budd y cyhoedd.

Beth yw eich hawliau?

Mae gennych chi'r hawl i weld yr wybodaeth sydd gennym amdanoch chi trwy gyflwyno cais ysgrifenedig i'r cyfeiriad e-bost isod. Os ydych chi ar unrhyw adeg o'r farn bod yr wybodaeth rydym yn ei phrosesu amdanoch yn anghywir, gallwch chi wneud cais i'w chywiro. Os hoffech wneud cwyn am y ffordd rydym ni wedi trin eich data personol, gallwch chi gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data, a fydd yn ymchwilio i'r mater.

Os nad ydych chi'n fodlon â'n hymateb neu os ydych chi o'r farn nad ydym yn prosesu eich data personol yn unol â'r gyfraith, fe allwch chi gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth trwy <https://ico.org.uk>, neu drwy ffonio 0303 123 1113.

Ein Swyddog Diogelu Data yn yr ASB yw Arweinydd y Tîm Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch. Gallwch chi gysylltu trwy anfon e-bost i:

informationmanagement@food.gov.uk

Rhagor o wybodaeth

Os ydych chi angen y ddogfen hon mewn fformat sy'n haws i'w ddarllen, anfonwch fanylion at y cyswllt a enwir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, a bydd eich cais yn cael ei ystyried.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag [egwyddorion ymgynghori Llywodraeth Ei Mawrhydi](#).

Atodiad B: Rhestr o bartïon â buddiant o ran y cynnig Pryfed Bwytadwy

- Beta Bugs Ltd

- Better Universal Grub Ltd
- Bug Farm Foods Ltd & Grub Kitchen
- CF Banks Ltd t/a Instar Farming and Bugvita
- Crunchy Critters
- Eat Grub
- Entocycle
- Horizon Insects
- MiniFeasts Ltd
- Monkfield Nutrition
- NewFoods Ltd t/a HOP
- Nutribug
- Poseative Ltd T/A Small Giants
- ProSects Feed Ltd
- Protein Rebel Ltd
- Saved Food
- Six Legs Farm
- Throne Farms
- Yum Bug
- Woven Network CIC